Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

Multi-Location Meeting - Lilian Hopkin Room, Guildhall / MS Teams

Dydd Iau, 18 Gorffennaf 2024 am 8.30 am

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cynghorydd(wyr)	**Y Cynghorydd(wyr)**	**Y Cynghorydd(wyr)**
R Francis-Davies	D H Hopkins	A S Lewis
R V Smith	E J King	A H Stevens
L S Gibbard	C Anderson	H J Gwilliam

Swyddog(ion)

Martin Nicholls	Prif Weithredwr
Gareth Borsden	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Ben Smith	Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151
Helen Morgan-Rees	Cyfarwyddwr Addysg
Debbie Smith	Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol

Hefyd yn bresennol
Y Cynghorydd(wyr): C A Holley

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Y Cynghorydd: A Anthony

---

13. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnus â Chofnod 18 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

2) Datganodd y Cynghorydd D H Hopkins gysylltiad personol a rhagfarnus â Chofnod 18 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

14. Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024.

15. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

16. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

17. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley gwestiynau mewn perthynas â Chofnod rhif 23 'Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Prosiectau Cyfalaf, Rheoli Traffig, ULEVTF, Diogelwch Ffyrdd, Grantiau Cyfalaf a Refeniw 2024/25', cofnod rhif 24 'Awdurdodiad y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer neilltuo cyllid i gefnogi datblygu a chwblhau'r gwaith sydd ar ôl sydd ei angen mewn ysgolion i gefnogi cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Bawb i'r holl ddisgyblion cynradd' a chofnod rhif 25 'Model arfaethedig newydd ar gyfer Cyfleusterau Addysgu Arbenigol (CAA) ar draws Abertawe'.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor:

Sylwer: Dywedodd y Cynghorydd C A Holley fyddai'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet ynghylch cofnod rhif 23 'Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Prosiectau Cyfalaf, Rheoli Traffig, ULEVTF, Diogelwch Ffyrdd, Grantiau Cyfalaf a Refeniw 2024/25' i wneud cais i gynnal sesiwn friffio ar gyfer aelodau ar y mater.

18. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr awdurdod lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion.

Penderfynwyd:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

Ysgol Gynradd Casllwchwr	Mr Jeff Bowen
Ysgol Gynradd Cilâ	Y Cyng. Paxton Hood-Williams
Ysgol Gynradd Clwyd	Mrs Christine Steward
Ysgol Gynradd y Crwys	Y Cyng. Paxton Hood-Williams
Ysgol Gynradd Cwm Glas	Y Cyng. Paul Lloyd
Ysgol Gynradd Gwyrosydd	Mrs Donna Saunders
Ysgol Gynradd yr Hafod	Y Cyng. Beverley Hopkins
Ysgol Gynradd Ystumllwynarth	Mr Richard Lewis
Ysgol Gynradd Penlle'r-gaer	Mr David Adlam Y Cyng. Wendy Fitzgerald
St Thomas	Y Cyng. Joe Hale

Terrace Road	Mrs Jo Walter
Ysgol Gynradd Ynystawe	Mr Michael Hedges
Ysgol Tre-gŵyr	Y Cyng. Susan Jones
Ysgol yr Olchfa	Y Cyng. Jeff Jones
Ysgol Gyfun Pentrehafod	Y Cyng. Peter Black Y Cyng. Graham Thomas
Ysgol Gyfun Penyrheol	Mr Jeff Bowen
Ysgol Gyfun Pontarddulais	Mrs Jane Harris Y Cyng. Wendy Fitzgerald
YGG Lôn Las	Mrs Pat Evans
YGG Pontybrenin	Y Cyng. Robert Smith
YG Gŵyr	Y Cynghorydd Robert Smith
Corff Llywodraethu dros dro ar gyfer Ysgol Arbennig newydd	Miss Amy Carrieri Ms Ishbel Hansen Mrs Sian Roberts Mrs Lesley Williams Mr Alan Pitt Mr Stephen Barrett Mrs Kelly Ahern Mrs Lesley Hull Ms Sarah Greenslade

19. Alldro ac Ariannu Cyfalaf 2023/24.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnwys manylion alldro ac ariannu cyfalaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Penderfynwyd:

1) Cymeradwyo'r tanwariant net o'r gyllideb gyfalaf gynyddol o £39.362m a'i drosglwyddo i 2024/2025.

20. Alldro Ariannol Refeniw 2023/24.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 adroddiad ar yr alldro ariannol Refeniw manwl ar gyfer 2023/24.

Amlinellodd Arweinydd y Cyngor y meysydd gwariant ychwanegol canlynol a fydd yn cael eu hariannu o'r tanwariant y manylwyd arno yn yr adroddiad:

- £6m ar gyfer pwysau gofal cymdeithasol
- Dyblu'r gronfa buddsoddi cymunedol o £1m i £2m er mwyn cefnogi rhagor o brosiectau.
- £1m i wella arwynebau ffyrdd a fydd yn golygu cyfanswm o £8.1m
- Dyblu buddsoddiad mewn parciau sglefrio o £1m i £2m
- £200,000 ar ben y £400,000 a neilltuwyd eisoes ar gyfer teithio am ddim ar fysus yn ystod gwyliau'r haf.

- £200,000 ar gyfer llwybrau hygyrch mewn parciau.
- £150,000 ar gyfer y cynlluniau cymorth bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol.
- £60,000 ar gyfer cyfarpar newydd i gynnal llwybrau teithio llesol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 gyngor ar ffyrdd amrywiol o symud ymlaen â'r materion hyn yn ystod y flwyddyn bresennol gan ddilyn y prosesau priodol o dan y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

Penderfynwyd:

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig y manylwyd arnynt yn Adran 8.4, 8.5 a 8.6 yr adroddiad.

21. Alldro Refeniw 2023/24 - Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys manylion alldro CRT Dinas a Sir Abertawe o'i gymharu â'r gyllideb refeniw gymeradwy ar gyfer 2023/24.

Penderfynwyd:

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn arfaethedig gwerth £5.890m y manylwyd arnynt yn Adran 2.1 yr adroddiad.

22. Polisi Goleuo Neuadd y Ddinas.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb adroddiad i lywio trafodaeth a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ynghylch mabwysiadu Polisi Goleuo Neuadd y Ddinas ffurfiol.

Penderfynwyd:

1) Y dylid cymeradwyo'r Polisi.

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Aelod y Cabinet wneud penderfyniadau, mewn ymgynghoriad â'r is-grŵp, ar unrhyw fater sy'n ymwneud â rhoi'r Polisi ar waith gan gynnwys cymeradwyo'r holl geisiadau a wneir o dan y Polisi. Gall Aelod y Cabinet roi'r awdurdod i swyddog o'i ddewis arfer y cyfrifoldeb dirprwyedig ar ei ran, mewn ymgynghoriad ag aelodau'r is-grŵp.

3) Mewn perthynas â cheisiadau brys dylid rhoi cymeradwyaeth i Aelod y Cabinet a all weithredu'n unochrol neu a all awdurdodi swyddog i weithredu'n unochrol yn ei absenoldeb.

23. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Prosiectau Cyfalaf, Rheoli Traffig a Grantiau Cyfalaf a Refeniw Diogelwch Ffyrdd.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad ar y cyd i gymeradwyo'r cyllid ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol (CTL), y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF), y Gronfa Teithio Llesol (CTLl), Cyfalaf a Refeniw Diogelwch Ffyrdd, a Chronfa 20 MYA, ac i roi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet dros wariant ar y prosiectau cysylltiedig yn 2024/25 y manylir arnynt yn y llythyr dyfarnu grant ac i gydymffurfio â Rheol Rhif 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf), neilltuo ac awdurdodi rhaglenni i'r Rhaglen Gyfalaf.

Penderfynwyd:

1) Cymeradwyo derbyn yr arian grant a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Cyllid ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a'r Cyfarwyddwr Lleoedd dderbyn cyllid grant a ddyfernir ar gyfer CTL, ULEVTF, CTLl, Cyfalaf a Refeniw Diogelwch Ffyrdd a chynlluniau Cronfa 20 MYA.

2) Cymeradwyo'r cynlluniau uchod a'u hychwanegu at raglen gyfalaf y Cyngor yn unol â FPR7.

24. Awdurdodiad y Rhaglen Gyfalaf ar Gyfer Neilltuo Cyllid i Gefnogi Datblygu a Chwblhau'r Gwaith Sydd ar ôl Sydd ei Angen Mewn Ysgolion i Gefnogi Cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Bawb i'r Holl Ddisgyblion Cynradd.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) i neilltuo ac awdurdodi swm o £2,448,507 ar gyfer uwchraddio isadeiledd prydau ysgol, yn y Rhaglen Gyfalaf.

Penderfynwyd:

1) Cymeradwyo'r dyfarniad grant cyfalaf ar gyfer uwchraddio isadeiledd prydau ysgol, swm o £2,526,996, a fydd yn arwain at neilltuo cyfanswm o £4,331,993, a'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

25. Model newydd arfaethedig ar gyfer Cyfleusterau Addysgu Arbenigol (STFs) ar draws Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar ailddynodi 25 CAA, newid arbenigedd mewn 3 CAA, agor 5 CAA newydd, ehangu 4 CAA a chau 5 CAA mewn ysgolion yn Abertawe gan eu rhoi ar waith fesul cam gan ddechrau ym mis Medi 2025.

Penderfynwyd:

1) Cymeradwyo ymgynghori ar y canlynol:
   - ailddynodi 25 CAA

- newid arbenigedd 3 CAA
- agor 5 CAA newydd
- ehangu 4 CAA
- cau 5 CAA mewn ysgolion yn Abertawe gan roi hyn ar waith fesul cam gan ddechrau ym mis Medi 2025.

2) Bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw ymatebion yn dilyn yr ymgynghoriad.

26. Strategaeth Gwastraff Ddrafft 2025-30.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Gwasanaethau) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ofyn am farn preswylwyr ar Strategaeth Gwastraff Ddrafft Abertawe 2025-2030 drwy broses ymgynghori gyhoeddus.

Penderfynwyd:

1) Cymeradwyo ymarfer ymgynghori cyhoeddus i geisio barn preswylwyr ar Strategaeth Gwastraff Ddrafft Abertawe 2025-2030 a'r dogfennau sy'n atodedig yn Atodiad A a B.

27. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

(Sesiwn Gaeëdig)

28. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley gwestiynau mewn perthynas â chofnod rhif 29 ‘Gwaredu Tir Cam 1 Abertawe Ganolog’ a chofnod rhif 30 ‘Y Diweddaraf am Gynnydd Abertawe Ganolog a Glannau'r Ddinas’.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor a’r Prif Weithredwr.

29. Gwaredu Tir yng Ngham 1 Abertawe Ganolog.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwaredu tir o fewn datblygiad Bae Copr Cam 1 Abertawe Ganolog er mwyn adeiladu datblygiad gwesty newydd ac

i geisio awdurdodiad cyllidebol i ychwanegu'r prosiect at y Rhaglen Gyfalaf yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (FPR7).

Penderfynwyd cymeradwyo'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

30. Diweddariad a Chynnydd Abertawe Ganolog a Glannau'r Ddinas.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion ar gyfer Abertawe Ganolog a Glannau'r Ddinas. Gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer yr ymagweddau cyflawni a amlinellir yn yr adroddiad, i neilltuo'r cyllidebau y gofynnwyd amdanynt yn unol â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, a dirprwyo awdurdod angenrheidiol i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyfreithiol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth ddatblygu'r cynlluniau.

Penderfynwyd cymeradwyo'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.04 am

Cadeirydd

Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol	
Dyddiad cyhoeddi:	18 Gorfennaf 2024
Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben (3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi):	23.59 23 Gorfennaf 2024
Penderfyniad yn dod i rym:	24 Gorfennaf 2024